Comisiwn Ffiniau i Gymru
Boundary Commission for Wales

# Llythyr Newyddion

Cyhoeddwd: 21 Tachwedd 2003

## CYFLWYNIAD

1. Mae'r Llythyr Newyddion hwn yn cynnwys eitemau am:

- cynnydd gyda'r pumed arolwg cyffredinol
- gwybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer cynnal arolygon
- y cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau
- enwau cyswllt

## CYNNYDD

2. Dechreuodd pumed arolwg cyffredinol y Comisiwn o'r etholaethau seneddol yng Nghymru ar 16 Rhagfyr 2002. Fel rhan o'r pumed arolwg cyffredinol, mae'r Comisiwn hefyd yn cynnal arolygon o bum rhanbarth etholiadol Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad).

3. Yr ardaloedd y cynhelir arolygon ohonynt yw ardaloedd yr wyth sir gadwedig fel y'u cyfansoddwyd yn dilyn Gorchymyn Siroedd Cadwedig (Diwygio Ffiniau)(Cymru) 2003. Mae'r Comisiwn wedi penderfynu cyhoeddi eu hargymhellion dros dro ar gyfer pob un o'r ardaloedd y cynhaliwyd arolygon ohonynt yng Nghymru mewn un adroddiad. Rhagwelir y caiff yr argymhellion dros dro hyn eu cyhoeddi ddechrau mis Ionawr 2004. Wedyn ceir cyfnod o un mis i bobl gyflwyno sylwadau am gynigion y Comisiwn. Os bydd angen cynnal ymchwiliadau lleol ar gyfer unrhyw rai o'r ardaloedd y cynhaliwyd arolygon ohonynt, disgwylir iddynt gael eu cynnal ym mis Mawrth/Ebrill 2004 neu ym mis Mehefin a Gorffennaf 2004 (yn dilyn yr etholiadau llywodraeth leol a'r etholiadau Ewropeaidd).

## Y CYFNOD AR GYFER CYFLWYNO SYLWADAU

5. Mae Adran 5(2)(b) Deddf Etholaethau Seneddol 1986 yn ei gwneud yn ofynnol i sylwadau gael eu cyflwyno o fewn cyfnod o un mis yn dilyn cyhoeddi argymhellion y Comisiwn. Wrth gynnal arolygon blaenorol, derbyniwyd cwynion gan nifer o awdurdodau lleol nad oedd y cyfnod o un mis ar gyfer cyflwyno sylwadau yn ddigon hir ac nad yw'n caniatáu digon o amser i ymateb gan nad yw eu cylch o gyfarfodydd yn cyfateb â'r cyfnod ar gyfer cyflwyno sylwadau. Er nad yw'n ofynnol i'r Comisiwn ystyried sylwadau a gyflwynir ar ôl diwedd y cyfnod statudol byddant yn ymdrechu i ystyried sylwadau a dderbynnir wedi hynny. Fodd bynnag, po hwyraf y cyflwynir y

sylwadau, yr anoddaf y bydd hyn. Felly mae'r Comisiwn yn gofyn i bob sylw gael ei gyflwyno o fewn y cyfnod o un mis. Os cynhelir ymchwiliad lleol i'r argymhellion dros dro, cyhoeddir pob sylw ymlaen llaw er mwyn i bobl sydd â diddordeb baratoi ar gyfer yr ymchwiliad lleol. Ni ellir rhoi'r un ystyriaeth i unrhyw sylw a dderbynnir yn rhy hwyr i'w gyhoeddi gyda'r sylwadau eraill cyn yr ymchwiliad lleol ag y rhoddir i'r sylwadau eraill gan na fydd pobl eraill sydd â diddordeb wedi cael yr un cyfle i'w ystyried.

5. Dylai awdurdodau lleol nodi mai bwriad y Comisiwn yw anfon adroddiad yn disgrifio eu cynigion i awdurdodau lleol a phobl eraill sydd â diddordeb un wythnos cyn y cyhoeddir yr hysbysiad statudol yn y papurau newydd lleol. Mewn gwirionedd, rhydd hyn amser ychwanegol i'r cynigion gael eu hystyried ac i sylwadau gael eu cyflwyno cyn y daw'r cyfnod i ben.

6. Os cynhelir ymchwiliad lleol i argymhellion dros dro y Comisiwn ar gyfer ardal, dylid nodi y cyhoeddir pob sylw ymlaen llaw er mwyn i bobl sydd â diddordeb baratoi ar gyfer yr ymchwiliad lleol. Ni ellir rhoi'r un ystyriaeth i unrhyw sylwadau a dderbynnir yn rhy hwyr i'w cyhoeddi gyda'r sylwadau eraill ag y rhoddir i'r sylwadau eraill gan na fydd pobl eraill sydd â diddordeb wedi cael cyfle i'w hystyried cyn i'r ymchwiliad agor.

**GWYBODAETH**

7. Mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi llyfryn gwybodaeth sy'n nodi manylion y polisïau a'r gweithdrefnau i'w dilyn wrth gynnal yr arolwg. Gellir cael copi o'r llyfryn drwy gysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad isod.

8. Yn ogystal, gellir gweld y llyfryn gwybodaeth a gwybodaeth arall sy'n ymwneud â'r arolwg ar wefan y Comisiwn yn www.bcomm-wales.gov.uk

**ENWAU CYSWLLT**

9. Gellir cysylltu â'r Comisiwn yn y cyfeiriad canlynol:

Mr E H Lewis
Ysgrifennydd, Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Caradog
1-6 Plas Sant Andreas
Caerdydd, CF10 3BE

Ffôn: 029 2039 5031
Ffacs: 029 2039 5250
Ebost: comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk
Gwefan: www.comffin-cymru.gov.uk